

Ailagor ffynnon

“Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.” (adn .1)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 5:1–11 ac yna myfyrio

Bu inni sôn ddoe am y canrifoedd hynny pryd y cuddiwyd y gwirionedd o gyfiawnhad trwy ffydd oddi wrth yr Eglwys ac mai dyma gyfnod tywyllaf yr Eglwys Gristnogol. Am ganrif ar ôl canrif, fe ddysgodd yr Eglwys fod iachawdwriaeth i’w ganfod, nid trwy ymddiried yn Iesu Grist yn unig, ond trwy ddal sylw ar wahanol seremonïau a defodau crefyddol. Roedd rhai offeiriaid yn mynd mor bell ag annog pobl i achub aelodau o’u teuluoedd o le a elwid y ‘purdan’ – syniad sydd heb unrhyw fath o warant iddo yn yr Ysgrythur. Dywedwyd wrth y bobl, wedi iddynt gyfrannu hyn a hyn o arian, y byddai’r rhai oedd yn y purdan yn cael eu rhyddhau o’r cyflwr hwnnw ac yn meddiannu’r nefoedd. Yn Saesneg, mae yna gwpld cyfarwydd:

*When the coin in the coffer rings,
The soul from purgatory springs.*

Beth bynnag, ar gychwyn yr unfed ganrif ar bymtheg, bu i offeiriad ifanc ac athro mewn diwinyddiaeth o’r enw Martin Luther ddadlau fod llawer o’r hyn roedd yr Eglwys wedi bod yn ei ddysgu ac yn ei gyhoeddi yn anghywir, gan fynnu bod gwŷr a gwragedd yn cael eu cyfiawnhau yng ngolwg Duw, nid trwy weithredoedd, ond trwy ffydd yng ngwaith iawinol Iesu Grist ar y groes. Roedd goleuo’r gwirionedd hwn gerbron y bobl, gwirionedd sy’n cael ei osod i lawr yn glir yn yr Ysgrythur, yn un o’r ffactorau a arweiniodd nid yn unig at agor y ffynnon, ond at fudiad yr ydym ni nawr yn ei alw y Diwygiad Protestannaidd. Bron ar unwaith, bu i ddyfroedd pur y gwirionedd darddu o’r newydd, a chychwynnodd y bobl yfed yn hael o’r dyfroedd hynny. Mae gennym le i ganmol Duw am y foment fendigedig honno.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Hab. 2:1–4; Rhuf. 1:14–17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy’n gwneud y cyfiawn yn gyfiawn?
2. Beth mae’r Efengyl yn ei ddatguddio?

Gweddi

O Dad, gyda’m holl galon yr wyf yn rhoi gogoniant i ti am y diwrnod bendigedig yma pan fu i’r gwirionedd am gyfiawnhad trwy ffydd gael ei ddatguddio unwaith yn rhagor. Boed pob gogoniant ac anrhydedd i’th enw bendigedig. Amen.